

NPCA

National Prostate Cancer Audit

Gwybodaeth i Gleifion

Mae'r holiadur hwn yn ymwneud â'ch iechyd ers i chi gael diagnosis o ganser y prostad a'r gofal a'r driniaeth a dderbynioch. Rydym yn casglu'r wybodaeth hon fel rhan o'r Archwiliad Cenedlaethol Canser y Prostad.

Beth yw'r Archwiliad Cenedlaethol Canser y Prostad?

Mae angen gwybodaeth well arnom am ansawdd y gwasanaethau a'r gofal a ddarperir i gleifion â chanser y prostad. Mae'r Archwiliad Cenedlaethol Canser y Prostad yn casglu gwybodaeth am ddiagnosis, rheolaeth a thriniaeth pob claf sydd newydd gael diagnosis o ganser y prostad a'u canlyniadau. Bydd y canfyddiadau o'r archwiliad yn helpu i wella ymarfer clinigol a fydd yn achub bywydau cleifion ac yn gwella ansawdd bywyd.

Pwy sy'n cynnal yr Archwiliad?

Mae Coleg Brenhinol y Llawfeddygon, Lloegr, wedi'i ariannu gan y GIG i gynnal yr Archwiliad Cenedlaethol Canser y Prostad. Mae'r Coleg yn cydweithio'n agos â Chymdeithas Llawfeddygon Wrolegol Prydain, Grŵp Wro-Oncoleg Prydain a'r Gwasanaeth Cenedlaethol Cofrestru a Dadansoddi Canser. Mae Rhwydwaith Canser Cymru yn gweithio fel partner casglu data ar gyfer yr Archwiliad ar ran y Byrddau Iechyd yng Nghymru.

Pam ydw i wedi cael fy ngwahodd?

Mae holiadur yn cael ei anfon at ddynion a gafodd ddiagnosis o ganser y prostad yn ysbytai'r GIG yng Nghymru a Lloegr o leiaf 18 mis ar ôl i ddiagnosis gael ei wneud o'u canser. Rhoddodd eich ysbyty wybodaeth i chi am eich diagnosis o ganser y prostad, triniaeth a chanlyniadau i Rwydwaith Canser Cymru.

Pam ddylwn i gymryd rhan?

Bydd yr Archwiliad yn ein helpu i wella gofal cleifion yn y dyfodol, a gallwch chi a dynion eraill elwa ar hynny.

Oes rhaid i mi gymryd rhan?

Rydych yn cymryd rhan yn wirfoddol. Gallwch dynnu'r wybodaeth a ddarparoch i'r Archwiliad yn ôl unrhyw bryd heb roi rheswm, a heb effeithio ar eich gofal meddygol na'ch hawliau cyfreithiol. Os dymunwch dynnu'n ôl o'r arolwg, ffoniwch y llinell gymorth RHADFFON ar: **0800 783 1775**.

A fyddwch chi'n cysylltu â mi eto?

Os na chlywn yn ôl gennych, byddwn yn anfon dau lythyr atgoffa atoch yn y post. Pe bai'n well gennych beidio â derbyn llythyr atgoffa, gallwch gofrestru hyn drwy anfon yr arolwg heb ei lenwi yn ôl atom yn yr amlen RHADBOST a ddarparwyd, neu drwy ffonio'r llinell gymorth RHADFFON ar: **0800 783 1775**.

Pwy ddylai lenwi'r holiadur?

Dylai'r cwestiynau gael eu hateb gan y sawl a enwyd yn y llythyr a ddaeth gyda'r holiadur hwn. Os oes angen help arnoch, dylai'r atebion gael eu rhoi o'ch safbwynt chi – nid o safbwynt yr unigolyn sy'n eich helpu chi.

Diogelu Data

Mae'r holl wybodaeth a rowch i ni yn gwbl gyfrinachol a bydd yn cael ei chadw'n ddiogel. Rydym yn gweithio o fewn rheolau llym yn ymwneud â diogelu data a chyfrinachedd. **Ni** fydd eich ymateb i'r holiadur yn cael ei rannu gyda'ch meddyg.

Bydd eich enw'n cael ei dynnu o'ch gwybodaeth at bob diben. Ni fydd eich enw a'ch cyfeiriad yn cael eu cyfuno gyda'ch atebion i gwestiynau'r arolwg. I ddiogelu eich preifatrwydd, dim ond er mwyn e-bostio ein holiadur atoch y defnyddiwyd y manylion personol hyn.

Am fwy o wybodaeth ynghylch sut mae eich data personol gael ei ddefnyddio, os gwelwch yn dda cyfeiriwch at y ychwanegol preifatrwydd gwybodaeth a ddarperir ar ein gwefan: www.npca.org.uk/resources/npca-patient-survey/

Sut bydd fy ngwybodaeth yn cael ei defnyddio?

Bydd Archwiliad Cenedlaethol Canser y Prostad yn cyfuno eich atebion i gwestiynau'r arolwg â'r wybodaeth a roddir gan eich ysbyty ynglŷn â'ch diagnosis, triniaeth a chanlyniadau i Rwydwaith Canser Cymru, a gyda chronfeydd data'r GIG, fel Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru. Ni fydd staff Archwiliad Cenedlaethol Canser y Prostad yn gwybod pwy ydych chi.

Defnyddir y canlyniadau i ddarparu gwybodaeth am ansawdd y gofal a'r gwasanaethau y mae cleifion gyda chanser y prostad wedi'u derbyn, ac i'n helpu ni gymharu pa mor dda y mae pob ysbyty yn gwneud o gymharu ag ysbytai eraill. Bob blwyddyn, byddwn yn paratoi adroddiad cenedlaethol a fydd ar gael i'r cyhoedd ar ein gwefan www.npca.org.uk.

Os oes unrhyw ymholiadau gennych ynglŷn â'r holiadur, ffoniwch y llinell gymorth
RHADFFON ar: **0800 783 1775**

Eisiau gwybod mwy am Archwiliad Cenedlaethol Canser y Prostad?

Ewch i wefan Archwiliad Cenedlaethol Canser y Prostad: www.npca.org.uk

Anfonwch neges e-bost i: npca@rcseng.ac.uk

Ysgrifennwch at:

National Prostate Cancer Audit
Clinical Effectiveness Unit
The Royal College of Surgeons of England
35-43 Lincoln's Inn Fields
London WC2A 3PE